

Trosolwg

Monday, December 16, 2019

3:02 PM

Teitl yr Aseiniad: Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gydamentor neu gyd-fyfyrrwyr) sy'n cyfleu adfyfyriobeirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Enw'r Myfyriwr: Celyn Mair Thomas

Rhif y Myfyriwr: 1600151

Llwybr: Uwchradd

Dolen i'r aseiniad ar OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o/g/personal/1600151_student_uwtsd_ac_uk/EodzUbJEw_hApG5wzZM-b2UBKAUOlak_HecwlyG5dJhOsQ?e=2qKJRF

Asesu ar Gyfer Dysgu

Friday, January 3, 2020 1:39 PM

I GLOI:



Ysgrifennwch ar y
'post-it':

Beth rydych chi wedi
dysgu am **Brit Milah**
heddiw?

Gwers Addysg Grefyddol blwyddyn 8 – 05/11/19

Testun y wers - Yn ystod y wers yma, roedd y disgyblion wedi dysgu am Brit Milah sydd yn rhan o'r uned o waith sef 'Camau Bywyd'. Defnyddiais I dechnegau Asesu ar gyfer dysgu er mwyn gallu asesu gwybodaeth y disgyblion ar ddiwedd y wers gan ddefnyddio dull o asesu ffurfiannol. Fel mae'r llun yn dangos, roedd rhaid i'r disgyblion crynhoi ar 'Post-it' yr hyn roeddent wedi'i ddysgu yn ystod y wers.

Enw: _____

Dyddiad: _____

Pwnc: _____

Sut ydych chi'n teimlo am y wers heddiw?



Pam?


Tasg i gloi

Ø Llenwch y tocyn allanfa
yma.

Ø Sut ydych chi'n teimlo?
Pam?

Gwers Addysg Grefyddol blwyddyn 8 – 03/12/19

Testun y wers - Yn ystod y wers yma, roedd rhaid i ddisgyblion cymharu Brit Milah a bedydd Cristnogol gan adolygu ar beth roeddent nhw wedi dysgu am Brit Milah a Bedydd Cristnogol, ac yna cofnodi'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ddwy seremoni gan ddefnyddio diagram Venn. Yna, eto, gan ddefnyddio'r dull o asesu ar gyfer dysgu ar sail asesu ffurfiannol, roedd rhaid i'r disgyblion nodi beth roeddent nhw'n teimlo am y wers heddiw gan ddewis wyneb hapus, llai hapus neu drist, ac yna nodi pam roeddent nhw'n teimlo fel hyn.



Gwers Addysg Grefyddol blwyddyn 8 – 06/12/19

Testun y wers - Yn ystod y wers yma, roedd y disgyblion wedi cael cyflwyniad i Bar Mitzvah, sef y cam nesaf yn yr uned 'Camau Bywyd'. Roedd rhaid i'r disgyblion yn gyntaf gwyllo fideo am Bar Mitzvah gan gofnodi 3 ffaith o'r fideo, ac yna gwneud taflen gwaith am y pwnc. Fel y gweler uchod, ar ddiwedd y wers, roedd rhaid i'r disgyblion cwblhau tasg i orffen y wers sef 'Rhowch 5 i mi' sydd yn gysylltiedig efo asesu ar gyfer dysgu ar sail asesu ffurfiannol, wrth i'r disgyblion grynhoi'r hyn roeddent wedi'i ddysgu'r wers honno. Roedd yn rhaid i'r disgyblion ysgrifennu 5 pwynt gwahanol ym mhob bys i ddangos yr hyn roedden nhw wedi'i ddysgu a'i gofio.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Friday, January 3, 2020 1:39 PM

Llythrennedd


Seientoleg



Wedi'i ddatblygu gan L. Ron Hubbard, mae Seientoleg yn grefydd sy'n cynnig llwybr manwl sy'n arwain at ddealltwriaeth gyflawn a sicr o wir natur ysbrydol. Mae Seientoleg yn golygu "gwybod sut i wybod" gan ddefnyddio gwyddoniaeth i'w helpu.

Y prif credoau yw:

- Mae dyn yn fod ysbrydol anfarwol.
- Mae ei brofiad yn ymestyn ymhell y tu hwnt i un oes.
- Mae ei alluoedd yn anghyfnygedig, hyd yn oed os na chaiff ei wireddu ar hyn o bryd.



Mae gan y grefydd llyfr i'w ddilyn, sef '*Dianetics: The Modern Science of Mental Health*' (1950) mae dilynwyr yn darllen i ddeall gwir bwrpas bywyd a sut i gyrraedd y nod.



Gelwir y bod ysbrydol (enaid) yn '*thetan*'. Mae'r thetan yn anfarwol ac felly yn mynd i barhau i fyw trwy sawl bywyd. Y nod eithaf o Seientoleg yw gwir goleuo ysbrydol a rhyddid i bawb.

Mae yna 8 dynamig, sef nod bywyd. Mae'n rhaid iddyn nhw basio pob dynamig cyn cyrraedd yr un nesaf – ac unwaith mae'r unigolyn yn cyrraedd dynamig 7 y bydden nhw'n ddeall gwir ystyr y mudiad. Nid yw un o'r 8 yn fwy pwysig na'r lleill, maen nhw i gyd yn gydradd.

Mae cyn-aelodau wedi dweud bod y mudiad yn un ddud iawn i fod yn rhan ohono. Er mwyn datblygu yn ysbrydol, mae'n rhaid i aelodau talu swm mawr o arian – byddai hynny yn sicrhau bod yr aelod yn mynd i fyny'r lefelau o ddealltwriaeth. Mae'r nifer sydd wedi gadael wedi galw'r mudiad yn ffug wrth iddyn nhw orfodi unigolion i dalu i ddeall gwir ystyr y mudiad.

	Seientoleg
Pwy yw'r sylfaenydd?	
Prif gredoau?	
Llyfr?	
Elfen negyddol?	

Gwers Addysg Grefyddol blwyddyn 9 – 03/12/19

Testun y wers - Yn ystod y wers yma, roedd y dosbarth wedi cael cyflwyniad I Fudiad Crefyddol Newydd sef Seientoleg. Roedd y wers yma yn cynnwys tasg agoriadol sef dangos lluniau o bobl enwog e.e. Tom Cruise a John Travolta a oedd rhaid i'r disgyblion awgrymu'r cysylltiad rhwng y bobl yma. Ar ôl y dasg yma, roedd rhaid i'r disgyblion gwyllo fideo ar Seientoleg ac ysgrifennu 3 ffaith yn eu llyfrau. Nesaf, roedd rhaid i'r disgyblion gwblhau'r dasg uchod, sef darn darllen a ddeall. Roedd rhaid i'r disgyblion darllen y daflen gwybodaeth am Seientoleg ac yna cofnodi gwybodaeth ar y daflen cofnodi gwybodaeth. Mae hon yn dasg sy'n sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu sgiliau llythrennedd gan fod yn rhaid iddynt ddarllen ac ysgrifennu. Mae'r ddwy elfen yma yn cael eu hystyried yn elfennau o arddangos sgiliau llythrennedd.

Rhifedd

Ailgylchu yng Nghymru

Blwyddyn: 2017-18

Lleoliad	Cyfanswm a ailgylchwyd	I'r rhif cyfan agosaf	I un lle degol
Cymru	54.33310793	54	54.3
Ymys Môn	54.37298954	54	54.3
Gwynedd	54.00792362	54	54.0
Conwy	56.25841184	56	56.2
Sir Ddinbych	63.20575174	63	63.2
Sir Fflint	55.12867586	55	55.1
Wrecsam	54.7425777	55	54.7
Powys	52.52284844	53	52.5
Ceredigion	58.35993851	58	58.3
Sir Benfro	60.33456865	60	60.3
Sir Gaerfyrddin	55.73808692	56	55.7
Abertawe	52.82371267	53	52.8
Castell Nedd Port Talbot	54.03492673	54	54.0
Pen - y - Bont ar Ogwr	56.49475056	56	56.4
Bro Morgannwg	54.76945081	55	54.8
Caerdydd	49.67176862	50	49.7
Rhondda Cynon Taf	49.31193296	49	49.3
Merthyr Tydfil	48.22037043	48	48.2
Caerffili	57.6104595	58	57.6
Blaenau Gwent	54.75280406	55	54.8
Torfaen	52.28011902	52	52.2
Sir Fynwy	62.93677386	63	62.9
Casnewydd	51.69761424	52	51.7

1. Talgrynnwch y canrannau isod i'r rhif cyfan agosaf, ac yna i un lle degol.

2. Pa gynghorau y byddai'n hapusach i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf? Pam?

Wrecsam, Powys, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Bro Morgannwg, Ceredigion, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Casnewydd

Mae Pobol yn ailgylchu.

3. Pa rai byddai'n hapusach i dalgrynnu i un lle degol? Pam?

Mae Sir Ddinbych yn fwy na gwyn.

Gwers Dyniaethau blwyddyn 7 (Dyn7RJ) – 29/11/19

Testun y wers - Ffocws y wers yma oedd edrych ar Ailgylchu yng Nghymru a faint roedd gwahanol leoliadau ar draws Cymru wedi ailgylchu rhwng y flwyddyn 2017 – 2018. Yn ystod y wers hon, roedd yn rhaid i'r disgyblion feddwl am ailgylchu yn gyffredinol a rhannu pa eitemau y gallent eu hailgylchu yn eu cartref. Yna roedd yn rhaid iddyn nhw gyflawni'r brif dasg sy'n cynnwys rhifedd, fel roedd yn rhaid iddyn nhw edrych ar y rhif o faint mae gwahanol leoliadau ar draws Cymru yn ailgylchu ac yna newid y rhif yna i'r rhif cyfan agosaf a hefyd i un lle digidol. Wedyn, fel gwelwn yn y llun yma, roedd rhaid i'r disgyblion ateb cwestiynau am y tabl roedd rhaid iddynt lenwi. Rhifedd oedd sylfaen y dasg hon gan y gallent gymhwyso eu gwybodaeth o'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu mewn gwersi Mathemateg a'i gymhwyso i bynciau eraill.

Cymhwysedd Digidol

Gwaith dosbarth 3/11/19

Crefydd a'r Amgylchedd

Tasg ymchwil:	Y Bhumi Project.
Enw'r elusen/ grŵp	Hindwaidd
Enw'r grefydd	Hindwaidd
Beth yw ei bwriad?	Ein bwriad ni i planu Coed, lleihau defnydd ni o carbon minoxid ac Nwyon Ty gwyr.
Beth mae'r grŵp yn ceisio gwneud am yr amgylchedd?	Codi sylw yn amgylchedd gan gŵnd "Hindu Environment week".
Sut mae beth meint yn gwneud sy'n dangos ei crefydd/ dangos pam mae'n bwysig i'r grefydd iddynt weithredu?	Pediwech a Thorri Coed. Mae fel ladd yn o'r rhau ni ein hunain. Graddus. Ni ddymuno am ddyfodol lle nad yw hanner y byd yn ddiflanu.
Enghraifft/iau penodol	- Planu Coed - Lleihau ddefnydd o Ceir a olew - Lleihau defnydd o Nwyon Ty Gwyr.

Gwers Dyniaethau Blwyddyn 7 (Dyn7RLJ) – 29/11/19

Testun y wers - Yn ystod y wers yma, roedd rhaid i'r disgyblion cwblhau tasg ymchwil yn y grwpiau y cawsant eu rhoi ynddynt ar grefydd a'r amgylchedd. I allu cwblhau'r dasg yma, roedd pob grŵp gwahanol wedi cael pwnc gwahanol i ganolbwyntio ac edrych ar, ac yna roedd rhaid i bob grŵp defnyddio gliniaduron i allu gwneud yr ymchwil yma. Fel y gwelir yn y dystiolaeth uchod, canolbwyntiodd y disgybl yma wedi canolbwyntio ar y grefydd Hindwaidd a'r elusen neu grŵp 'Bhumi Project'. Bwriad yr ymchwil yma roedd i bob grŵp cael cipolwg ar bob elusen / grŵp crefyddol a beth rydyn nhw'n ceisio gwneud am yr amgylchedd. Pwrpas y dasg yma roedd i rannu gwybodaeth i weddill y dosbarth gan ddefnyddio'i sgiliau cymhwysedd digidol gan ddefnyddio gliniaduron.

Maes Dysgu a Phrofiad

Friday, January 3, 2020 1:41 PM

Sgiliau Map

Mae'r Byd yn ENFAWR! Wrth ceisio dod o hyd i rhywle ar fap neu glôb mae'n gallu bod yn eithaf anodd. Er mwyn i ni ddod o hyd i lefydd yn hawdd mae'n rhaid i ni ymarfer defnyddio ein sgiliau map. Mae sawl sgil yn bodoli, mae yna gyfle i chi ymarfer dau ohonynt yn y tasgau isod:-

Lledred a Hydreid

Er mwyn helpu ni i ddod o hyd i lefydd, mae yna llinellau dychmygol ar fapiau. Gelwir y llinellau hyn yn lledred a hydred. Maent yn mesur pellter ac yn cael ei fesur mewn graddau. Mae lledred yn gael ei fesur i'r gogledd ac i'r de o'r Cyhydedd. Mae hydred yn cael ei fesur i'r dwyrain ac i'r gorllewin o Feridian Greenwich. Mae'r llinellau hyn yn ffurfio grid, sy'n edrych fel patrwm o sgwariau. Mae'r lledred yn cael ei nodi cyn yr hydred pob tro. Gan ddefnyddio atlas, cwblhewch y tabl isod:-

Lledred	Hydred	Dinas
51°G	006°Gn	Llundain
38°G	9°Gn	Lisboa
30°G	31°Dn	Abuja
9°G	38°Dn	Kampala
43°G	75°Gn	Phnom Penh
34°D	138°Dn	Osaka
18°G	133°Gn	Mumbai
		Cape Town
		Rio de Janeiro
		Jakarta

Cyfeiriau

Mae ychydig o eiriau sy'n gysylltiedig â Baearyddiaeth yn y pŵl llythrennau gyferbynnu. Dilynwch y cyfarwyddiadau sydd ym mhob tabl er mwyn darganfod y geiriau. Darluniwch linell rhwng y llythrennau yn y pos ac ysgrifennwch enw'r llythrennau yn y tabl fel y byddwch yn dod o hyd iddi. Mae'r pos cyntaf wedi ei wneud yn barod.

Diagram 1: Cyfeiriau

Diagram 1 ydyd yn dangos y llythrennau sydd ym mhob tabl er mwyn darganfod y geiriau. Mae'r diagram yn dangos y llythrennau sydd ym mhob tabl er mwyn darganfod y geiriau. Mae'r diagram yn dangos y llythrennau sydd ym mhob tabl er mwyn darganfod y geiriau.

Diagram 2: Cyfeiriau

Diagram 2 ydyd yn dangos y llythrennau sydd ym mhob tabl er mwyn darganfod y geiriau. Mae'r diagram yn dangos y llythrennau sydd ym mhob tabl er mwyn darganfod y geiriau. Mae'r diagram yn dangos y llythrennau sydd ym mhob tabl er mwyn darganfod y geiriau.

Gwers Dyniaethau Blwyddyn 7 (7RJ) - 05/11/19

Tystun y wers - Yn ystod y wers yma, yn gyntaf roedd rhaid i'r disgyblion ysgrifennu ar nodyn 'post-it' beth roedden nhw wedi dysgu am gyn hanner tymor. Yna, nod y wers yma roedd i'r disgyblion dysgu am ledred a hydred a beth mae'r llinellau lledred a hydred yn golygu gan ddefnyddio atlasau. Dysgodd y disgyblion hyn wrth imi ddangos diagramau iddynt ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol a fyddai'n eu helpu i weld pa linellau yw lledred a ba linellau yw hydred. Nesaf, roedd rhaid i'r disgyblion cwblhau'r dasg sydd yn y llun yma, sef i ddefnyddio'r llinellau lledred a hydred yn yr atlas i ddarganfod gwahanol leoliadau yn y byd. I gloi'r wers yma, roedd rhaid i'r disgyblion cwblhau'r dasg '30 gair', a oedd yn cynnwys disgyblion yn gorfod crynhoi beth roedden nhw wedi dysgu yn ystod y wers mewn 30 gair yn unig. Roedd y wers yma yn ddaearyddol yn bennaf o ran y dyniaethau.

Yr Effaith Tŷ Gwyr

Mae'r effaith tŷ gwyr yn broses naturiol yn ein hatmosffer. Hebddi, -17°C fyddai tymheredd cyfartalog arwyneby y Ddaear, yn hytrach na 15°C. Mae'r Ddaear yn cael ei gynhesu yn ystod y dydd gan belydriad o'r haul ac yn colli gwres yn ystod y nos wrth i belydriad ddianc. Mae nwyon tŷ gwyr yn gweithredu fel blanced ac yn rhwystro pelydriad isgoch rhag dianc.


Pam fod y Ddaear yn cynhesu?

Mae gweithgareddau pobl dros y 100 mlynedd diwethaf wedi arwain at gynydd yn y maint a mathau'r nwyon tŷ gwyr sydd yn yr atmosffer. Mae hyn yn rhwystro gwres rhag dianc i'r gofod, ac o ganlyniad, mae'r effaith tŷ gwyr wedi cynyddu. Roedd codiad o 0.6° C yn rhymeredd y Byd yn ystod yr ugeinfed ganrif, ac roedd saith o'r flwyddoedd cynhesaf y ganrif yn yr 1990au. Mae'n anochel y bydd yn codi 1.5°C arall yn ystod y 50 mlynedd nesaf. **Cynhesu byd - eang** yw enw'r broses sy'n achosi'r cynnydd mewn tymhereddau.

Defnyddiwyd y wefan ganlynol a'r wybodaeth o'r pwyntpwr er mwyn cwblhau'r tabl isod:-

<https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/z94rsrd/revision/4>

Achosion	Effaithiau



Gwers Dyniaethau Blwyddyn 7 (7RJ) - 28/11/19

Testun y wers - Nod y wers yma oedd i'r disgyblion dysgu a ddeall am yr effaith tŷ gwydr a'r achosion ac yr effeithiau ar ein byd ni. I ddechrau'r wers, roedd rhaid i'r disgyblion cwblhau tasg categoreiddio gan gynnwys lliwio gwahanol bwyntiau am gynhesu byd eang yn ôl dau gategori gwahanol: cadarnhaol a negyddol. Yna, er mwyn i'r disgyblion allu cyflawni'r dasg yma (sydd yn y llun), yn gyntaf dangoswyd fideo iddynt ar beth yw effaith tŷ gwydr, beth sy'n ei achosi a hefyd yr effeithiau y mae'n eu cael ar y ddaear. Ar ôl dangos y fideo, cafwyd trafodaeth ddosbarth am yr hyn a nodwyd yn ystod y fideo ac yna bu'n rhaid i'r disgyblion gwblhau'r dasg hon, hefyd gyda chymorth y darlenniad uwchben y tabl. Ar ben hynny, roeddwn i wedi gosod tasg heriol i'r rhai a oedd wedi gorffen yr un hon. Roedd y dasg yn cynnwys darllen taflen gwybodaeth am yr effeithiau'r effaith tŷ gwydr ar y DU. Yn ystod darllen y daflen gwybodaeth, roedd rhaid i'r disgyblion llenwi tabl eraill, gydag un ochr yn 'effeithiau cadarnhaol' a'r ochr arall 'effeithiau negyddol'. Roedd y wers yma yn ddaearyddol yn bennaf o ran y dyniaethau.

TASG 1:

- TROWCH AT DUDALEN 40.
- DARLLENWCH Y DAFLEN 'MANTEISION DEFNYDDIO PLASTIGION' I ATEB Y CWESTIYNAU YN Y LLYFRYN 'EIN BYD'.

Gwers Dyniaethau Blwyddyn 7 (7RJ) - 29/11/19

Testun y wers - Pwrpas y wers yma oedd i ddisgyblion i ddysgu a ddeall am blastigion gan gynnwys manteision ac anffanteision blastigion, a hefyd y strategaethau i leihau plastig yn ein byd ni. Ar ddechrau'r wers, roedd cyfle i'r disgyblion i drafod plastigion gan ateb y cwestiwn canlynol: 'Allwch chi enwi pum peth rydych chi'n defnyddio bob dydd sydd wedi ei wneud o blastig?' Nesaf, roedd rhaid i'r disgyblion rhannu ei syniadau i'r dosbarth. Yna, dangoswyd clip fideo o'r rhaglen 'Blue Planet' yn dangos effaith plastigion ar ein moroedd. Yna, roedd rhaid i'r disgyblion cwblhau Tasg 1, sef i ddarllen y daflen gwybodaeth a addaswyd i weddu i alluoedd pob disgybl ac yna, ateb y cwestiynau ar 'Manteision defnyddio plastigion'. Yna, roedd rhaid i'r disgyblion cwblhau Tasg 2 a Thasg 3. Roedd y wers yma yn ddaearyddol yn bennaf o ran

y dyniaethau.

Rhan 1: Cyflwyniad

Ffocws yr aseiniad yma yw adfyfyrio beirniadol ar gynnydd rwyf wedi gwneud o ran cynllunio yn ystod y Profiad Addysgu Proffesiynol, gan weithredu'r tair egwyddor addysgegol a nodir gan Graham Donaldson yn ei adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* (2015). Mae'n hollbwysig i bwysleisio pwysigrwydd egwyddorion addysgegol Donaldson, oherwydd yn ôl yr adroddiad, dywedwyd dylai bob athro dilyn yr egwyddor addysgegol yma "er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau'n ymwneud yn uniongyrchol a'r dibenion cwricwlwm" (Donaldson, 2015, t.116).

Am bwrpas yr aseiniad yma, byddaf yn cyfeirio at yr ysgol lle rydw i'n wneud y Profiad Addysgu Proffesiynol fel ysgol X, oherwydd y canllawiau moesegol yn ôl y British Educational Research Association (BERA, 2018), sef cyfrinachedd ac anhysbysrwydd. Yn ychwanegol, byddaf yn canolbwyntio ar dair egwyddor addysgegol fy mod wedi gweithredu yn ystod y Profiad Addysgu Proffesiynol, sef: asesu ar gyfer dysgu, cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ac yn olaf meysydd dysgu a phrofiad.

Yn ystod yr aseiniad, byddaf yn gyntaf trafod y tair egwyddor gan ddefnyddio llenyddiaeth academaidd ac yna, cysylltu'r cynnydd rwyf wedi gwneud â'r tair egwyddor gan ddefnyddio esiamplau. Yn ychwanegol, byddaf yn adfyfyrio beirniadol ar y cynnydd yma ac yn olaf, archwilio sut y byddaf yn datblygu'r defnydd o'r egwyddorion yma trwy gynllunio ac addysgu yn y dyfodol.

Rhan 2: Adolygiad Llenyddiaeth

Asesu ar gyfer dysgu

Mae asesu ar gyfer dysgu yn ddull hollbwysig at ddibenion dysgu a datblygu disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Deilliodd Asesu ar gyfer Dysgu fel ymateb i'r angen am asesiad yn fwy cyson â thueddiadau addysgeg gyfredol sy'n cysylltu â dulliau adeiladol, yn hytrach nag ymagweddau mwy traddodiadol at addysgu a dysgu (Flórez a Sammons, 2013). Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), mae asesu ar gyfer dysgu yn golygu'r "broses o ddarganfod y man y mae dysgwyr wedi'i gyrraedd o fewn continwrm dysgu, y man y mae angen iddynt anelu ato, a'r dull gorau o gyrraedd y man hwnnw" (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, t.3). Mae'r math yma o asesiad â phwrpas 'ffurfiannol'.

Yn ôl Flórez a Sammons (2013), mae asesiad ffurfiannol yn helpu i ffurfio'r hyn sydd o'n blaenau yn hytrach na mesur a chofnodi cyflawniadau'r gorffennol yn unig. Ar y llaw arall, mae Black a Wiliam yn ystyried asesiad ffurfiannol fel "encompassing all those activities undertaken by teachers, and/or by their students, which provide information to be used as feedback to modify the teaching and learning activities in which they are engaged" (Black a Wiliam, 1998a, t.7). Er bod yna lawer o ddiffiniadau o beth yw asesiad ffurfiannol, mae Wiliam yn nodi bod y diffiniadau yma, yn ystyried asesu ffurfiannol fel proses (Wiliam, 2011).

Yn amlwg mae asesu ffurfiannol yn fath o asesu ar gyfer dysgu, er mwyn pennu

cynnydd gwybodaeth a sgiliau disgyblion yn y dosbarth. Gall asesiad ffurfiannol ddigwydd lawer gwaith ym mhob gwers. Hefyd, gall gynnwys sawl dull gwahanol ar gyfer annog disgyblion i fynegi'r hyn maen nhw'n ei feddwl a sawl ffordd wahanol o weithredu ar y dystiolaeth yna (Black et al. 2003). Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) yn pwysleisio, "bod technegau Asesu ar gyfer dysgu yn cael eu defnyddio trwy gydol y dysgu. Ni ddylai asesu 'ddod tua'r diwedd' ond dylai ddigwydd yn aml..." (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, t.26). O ganlyniad, dylai asesiad ffurfiannol cymryd rhan yn ystod gwersi yn barhaus.

Y prif strategaethau a ystyrir yn bwysig ar gyfer Asesu ar gyfer Dysgu yw: rhannu nodau dysgu, adborth ffurfiannol, hunanasesu cymheiriaid a hunanasesu, a defnyddio ffurfiannol profion crynolod. Canfuwyd bod y strategaethau yma yn hynod gadarnhaol o ran eu potensial i hyrwyddo gwelliannau yn ymarfer athrawon (Flórez a Sammons, 2013). Gellir defnyddio'r holl strategaethau yma trwy gydol gwersi, gan awgrymu bod y strategaethau hyn yn effeithiol ac yn ddefnyddiol nid yn unig i addasu athrawon ond hefyd i ddatblygiad disgyblion.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Yn ôl Donaldson (2015), mae Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd sef rhifedd, llythyrnedd a chymhwysedd digidol yn cyfrifoldebau hanfodol dylai athrawon i gyd gweithredu. Pwrpas y cyfrifoldebau yma yw i "plant a phobl ifanc yn datblygu lefelau cymhwysedd uchel yn yr agweddau hynny a'u bod yn cael cyfleoedd aml i'w datblygu, eu hymestyn a'u cymhwyso ar draws y cwricwlwm" (Donaldson, 2015, t.40). Mae'r sgiliau Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd yn caniatáu i bob disgybl datblygu ar draws pob maes dysgu a phrofiad, a hefyd i gyflawni pedwar diben Donaldson (Donaldson, 2015). Trwy weithredu'r sgiliau yma, mae'n hanfodol bod disgyblion yn cael cyfle i ddod yn ddinasyddion a ddisgrifiwyd gan Donaldson. Yn amlwg wrth hyn, mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn mynd law yn llaw â'i gilydd.

Y sgiliau sydd yn ffurfio llythrennedd yw "iaith lafar, cystrawen a sillafu" (Donaldson, 2015, t.40). Felly, mae llythrennedd yn sgil hollbwysig trwy gydol y meysydd dysgu a phrofiad, rhifedd a chymhwysedd digidol. Er enghraifft, mae iaith lafar yn cael i ddefnyddio ym mhob gwers gan ei fod yn fath o gyfathrebu rhwng yr athro a'r disgyblion, sydd yn awgrymu pwysigrwydd llythrennedd ar draws addysg i gyd. Yn debyg, dywed Mayor mae llythrennedd "at the heart of world development and human rights" (Blake a Blake, 2002, t.1). Felly, mae Mayor yn pwysleisio arwyddocâd llythrennedd ledled y byd gan fod gan bawb yr hawl i'r sgil yma.

Yn ychwanegol, mae rhifedd yn sgil hollbwysig, gan gynnwys "sgiliau rhifydddeg a thrin data" (Donaldson, 2015, t.40). Nododd adroddiad dylanwadol gan Lywodraeth Prydain (Cockroft, 1982) ddwy nodwedd allweddol unigolyn rhifog, sef: y gallu i ddefnyddio mathemateg ym mywyd beunyddiol ac i ddeall a gwerthfawrogi gwybodaeth a gyflwynir mewn termau mathemategol (Madison a Steen, 2008). Mae yna lawer o resymau pam dylai disgyblion haeddu addysg fathemateg gyfoethog a heriol. Mae rhifedd yn ganolog i weithgaredd a chyflawniad deallusol dynol ac felly mae wrth wraidd treftadaeth ddiwylliannol y ddynoliaeth. Hefyd, mae gwybodaeth fathemategol yn sail i ystod eang o yrfaeodd yn y crefftau a'r proffesiynau (Goos, Dole a Geiger, 2011).

Ymhellach, mae cymhwysedd digidol yn un o'r gydran allweddol ar gyfer dysgu gydol oes ac mae'n hanfodol ar gyfer cymryd rhan yn ein cymdeithas sy'n fwyfwy digidol (Ferrari, 2013). Mae Donaldson yn cytuno efo'r syniad yma, fel y dywed "mae ein plant a phobl ifanc yn byw mewn byd digidol yn barod ac mae eu bywydau personol, cymdeithasol ac addysgol yn cydblethu fwyfwy â gwahanol

fathau o dechnoleg sy'n newid yn gyflym" (Donaldson, 2015, t.108). Gan hynny, mae'n hanfodol bod disgyblion heddiw yn cael cyfle i ddatblygu'r sgiliau yma wrth i'n cymdeithas ddod yn fwy digidol.

Maes Dysgu a Phrofiad

Mae Meysydd Dysgu a Phrofiad yn elfen anhygoel o arwyddocaol yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus gan Donaldson (2015). Mae'r mwyafrif o ddiffiniadau o Feysydd Dysgu a Phrofiad, yn pwysleisio sut mae cyfuniadau o bynciau'n cael eu defnyddio mewn gwaith prosiect neu thematig, gan ymgorffori ystod eang o ffynonellau, cysyniadau cysylltiedig ag amserlenni hyblyg (Hayes, 2010). Mae Donaldson yn nodi bod chwe gwahanol Faes Dysgu a Phrofiad, megis: "Celfyddydau mynegiannol, lechyd a lles, y Dyniaethau, leithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, Mathemateg a rhifedd, Gwyddoniaeth a thechnoleg" (Donaldson, 2015, t.39). Trwy ddefnyddio'r dull yma, gall ymgorffori mwy nag un maes pwnc; gellir cysylltu'r disgyblaethau pwnc trwy thema ganolog, mater, problem, proses, pwnc neu brofiad.

Pwrpas y Meysydd Dysgu a Phrofiad yma yw dangos bod profiadau yn y lleoliad addysgol yn rhan bwysig a gwerthfawr o'r cwricwlwm. At hynny, nod y Meysydd Dysgu a Phrofiad yw i cefnogi ac annog disgyblion i werthfawrogi dysgu ac ehangu eu safbwyntiau (Donaldson, 2015). Yn ychwanegol, ar gwefan Llywodraeth Cymru (2019) 'Children's rights in Wales', mae'r United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC) yn datgan "Children and young people aged 18 and under, have the right to be safe, to play, to have an education, to be healthy and be happy" (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae pob Maes Dysgu a Phrofiad yn cefnogi beth mae'r UNCRC yn dweud, sydd yn awgrymu bod cael Meysydd Dysgu a Phrofiad yn ffordd effeithiol a hanfodol i ddisgyblion fwynhau dysgu mewn amgylchedd iach a hapus.

Mae croesi ffiniau pynciau yn caniatáu ar gyfer ymchwiliadau sy'n ennyn dychymyg plant ac yn annog disgyblion i gynnal ymholiad gweithredol, i ddangos menter ac i drafod a thrafod materion (Hayes, 2010). Nid oes amheuaeth bod y cysyniad yma yn cysylltu â phedwar diben Donaldson, sef i greu cyfleoedd i ddisgyblion i ddod yn ddinasyddion llwyddiannus yn ein cymdeithas ni. Ymhellach, mae yna gysylltiad amlwg rhwng y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad. Er bod llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol i gyd yn rhan o wahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad, gellir defnyddio pob sgil trwy gydol pob Maes Dysgu a Phrofiad. Er enghraifft, mae'n bosibl defnyddio'r sgil rhifedd o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a thechnoleg. Am y rheswm yma, mae'n awgrymu bod cael Meysydd Dysgu a Phrofiad yn ffordd llwyddiannus a gwerthfawr o ddysgu disgyblion sut i ddefnyddio sgiliau hanfodol, yn ogystal â gwybodaeth bwnc.

Rhan 3 :Cynnydd

Asesu ar gyfer dysgu

Y math o asesiad ffurfiannol (sef Asesu ar Gyfer Dysgu) fy mod wedi dewis i ddangos fy nghynnydd yn ystod y Profiad Dysgu Proffesiynol yw hunanwerthuso llawn, ar ffurf tasgau llawn ar ddiwedd gwersi. Mae hyn yn golygu bod y disgyblion yn defnyddio'r dysgu a gafwyd mewn gwers benodol yng nghyd-destun o sesiwn llawn (Flórez a Sammons, 2013).

Yn ystod fy Mhrofiad Dysgu Proffesiynol yn ysgol X, rwy'n defnyddio sesiwn lawn ar ddiwedd pob gwers. Rwy'n teimlo ei fod yn ffordd effeithiol o wirio dysgu a dealltwriaeth y disgyblion yn ogystal â chrynhwio'r wers. Profir gan y dystiolaeth gan y Department for Education and Skills (2004), i greu tasg llawn effeithiol, dylai'r dasg: dod ynghyd ddysgu'r grŵp cyfan a'r unigolyn, chyfeirio disgyblion i'r cam nesaf o ddysgu, cydgrynhwio ac ymestyn dysgu, crynhwio'r dysgu hyd yn hyn ac yn olaf, helpu i bennu'r camau nesaf mewn dysgu. Mae'r pwyntiau yma yn elfennau hollbwysig o fewn Asesu ar Gyfer Dysgu.

Fel y dangosir yn yr enghreifftiau, mae'n amlwg bod fy nefnydd o ddefnyddio Asesu ar Gyfer Dysgu wedi cynyddu dros amser. Yn yr esiampl gyntaf, roedd rhaid i'r disgyblion crynhwio peth dysgon nhw yn y wers gan gofnodi gwybodaeth ar bapur, ond teimlaf roedd y dasg yma yn rhy eang. Yn dilyn y wers, darganfyddais fod rhai disgyblion wedi ysgrifennu esboniad manwl, tra bod disgyblion eraill wedi ysgrifennu ychydig eiriau. Felly nid oedd yn dasg llawn effeithiol. Er bod y dasg llawn yma wedi dangos elfennau o dasg llawn effeithiol yn ôl y Department for Education and Skills (2004), e.e. crynhwio'r dysgu, gan na chwblhaodd pob disgybl y dasg yn llwyddiannus. Ymhellach, mae'r ail enghraifft yn canolbwyntio mwy ar deimladau'r disgyblion yn hytrach na beth ddysgon nhw, felly nid oedd yn ddull effeithiol i wirio dealltwriaeth disgyblion o'r wers.

Erbyn y drydedd enghraifft, roedd y dasg llawn yn llawer mwy effeithiol na'r enghreifftiau eraill, gan roedd rhaid i ddisgyblion ysgrifennu pum pwynt dysgon nhw ar ddiwedd y wers. Roedd hon yn ffordd effeithiol o wirio eu dealltwriaeth at ddiben eu dysgu eu hunain, a hefyd amser ar gyfer hunanwerthuso ac adlewyrchiad o beth ddysgon nhw yn ystod y wers.

Yn amlwg, mae'r enghraifft yma yn dangos yn glir elfennau o dasg llawn effeithiol yn ôl y Department for Education and Skills (2004), e.e. helpu i bennu'r camau nesaf mewn dysgu. Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd gan weithredu'r egwyddor addysgegol Asesu ar Gyfer Dysgu i allu darparu'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion yn eu haddysg.

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Fel y dangosir gan yr enghreifftiau, mae tystiolaeth glir fy mod wedi rhoi cyfle i ddisgyblion wella eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, gan wedi defnyddio'r sgiliau yma yn ystod gwersi. Yn yr enghraifft gyntaf sy'n canolbwyntio ar lythrennedd, mae'n dangos tasg darllen taflen wybodaeth ynghyd ag ysgrifennu'r atebion i'r cwestiynau. Trwy ailedrych ar eiriau Donaldson (2015), mae darllen ac ysgrifennu yn hanfodol i gyflawni sgiliau llythrennedd. Elfen bwysig arall o lythrennedd yw iaith lafar (Donaldson, 2015). Ers cyflwyno'r dasg yma, rwyf wedi ystyried geiriau Donaldson ar iaith lafar i wneud cynnydd gweithredu sgiliau llythrennedd yn wersi, trwy gael trafodaeth ddosbarth gyda'r disgyblion cyn iddynt ateb y cwestiynau. Profir McKee (2015) bod trafodaeth ddosbarth yn ddefnyddiol oherwydd bod cyfranogiad disgyblion mewn trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth yn gwella profiad dysgu disgyblion yn sylweddol. Mae hyn yn awgrymu bod defnyddio iaith lafar trwy drafodaeth ddosbarth cyn i'r disgyblion ceisio tasg fel darllen ac ysgrifennu, fod yn ffordd fwy effeithiol i helpu disgyblion i ddeall yn well.

Mae'r ail enghraifft yn ffocysu ar Gyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd arall sef rhifedd. Yn yr esiampl yma, roedd rhaid i'r disgyblion cwblhau tasg talgrynnu yn ogystal â thrin data. Gan mai astudiaethau crefyddol yw fy arbenigedd, roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n anodd esbonio i'r disgyblion sut i gyflawni'r dasg hon. Felly, erbyn y dasg rhifedd nesaf, fe wnes i sicrhau fy mod wedi'i baratoi'n drylwyr ymlaen llaw i sicrhau bod gen i'r gallu i fod yn gwbl chefnogol i'r disgyblion. Felly roedd yn rhaid i mi wella fy natblygiad proffesiynol fy hun er mwyn i ddisgyblion wella a datblygu

eu sgiliau rhifedd eu hunain. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2019), yn y cwricwlwm newydd bydd rhifedd yn parhau i fod yn un allan o lawer o flaenoriaethau, fel Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd i bob athro. Felly mae'n hanfodol bod gan athrawon yr offer cywir i addysgu'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd fel rhifedd, ac mae hynny'n rhywbeth y mae angen i mi barhau i wella.

Cymhwysedd digidol yw'r enghraifft olaf rwyf wedi defnyddio. Yn ôl y Fframwaith Cymhwysedd Digidol, dylai disgyblion gallu "dewis a defnyddio ystod o offerynnau cydweithio i greu prosiect gydag eraill, e.e. defnyddio technoleg ar-lein i rannu a chyflwyno syniadau i eraill" (Llywodraeth Cymru, 2019). Mae'r dasg a osodwyd ar gyfer y disgyblion yn adlewyrchu disgwyliaidau'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, gan fod yn rhaid i ddisgyblion ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth gyda'r dosbarth cyfan. I ddechrau, gadewais un wers i'r disgyblion gyflawni'r dasg hon, ond nid oedd hyn yn ddigon o amser. Felly, roedd yn rhaid i mi addasu faint o amser a roddais i'r disgyblion i gyflawni'r dasg hon, ac erbyn y diwedd roedd ganddyn nhw dair gwrs i'w gwneud i baratoi cyflwyniad. O hyn, rwy'n teimlo fy mod wedi gwneud cynyddu gweithredu'r egwyddor addysgegol yma, oherwydd yn ystod yr amser hwn roedd yna lawer o broblemau technolegol gyda'r gliniaduron, felly ni chafodd disgyblion gyfle i weithio hyd eithaf eu gallu.

Maes Dysgu a Phrofiad

Fel y nodwyd gan Donaldson (2015), mae chwe gwahanol Faes Dysgu a Phrofiad. Y Maes Dysgu a Phrofiad mae ysgol X wedi'i gweithredu ym mlwyddyn 7, ac yr wyf wedi cael cyfle i'w dysgu yn ystod fy Mhrofiad Dysgu Proffesiynol yw: Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r Dyniaethau yn dod ynghyd pedwar pwnc gwahanol, megis: daearyddiaeth, addysg grefyddol, astudiaethau busnes a hanes. Yn ôl Donaldson (2015), mae'r Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn cynnig gwahanol gyd-destunau i ddisgyblion i ddod yn fwy ymwybodol o wahanol fodau dynol, amser, ffydd a chymunedau. Felly, mae'r dystiolaeth yma yn awgrymu pwysigrwydd y Dyniaethau gan ei fod yn cefnogi creu a datblygu disgyblion llwyddiannus.

Yn ystod fy Mhrofiad Dysgu Proffesiynol, cefais y cyfle i ddysgu'r elfennau daearyddol a chrefyddol y Dyniaethau yn unig hyd at hyn. Felly mae rhywbeth i'w wella eisoes, oherwydd yn y dyfodol gallwn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i ddysgu'r pedair elfen y Dyniaethau yn gyfartal, gan eu bod i gyd yn bwysig fel ei gilydd. Er gwaethaf hyn, rwy'n teimlo fy mod wedi gwella gweithredu'r egwyddor addysgegol yma. Yn yr esiampl gyntaf, roedd rhaid i'r disgyblion defnyddio'i sgiliau map ar gyfer yr elfen ddaearyddol o'r Dyniaethau. Fel y dangosir yn y llun, ni chyflawnodd y disgybl yma yn ogystal â gweddill y dosbarthon y dasg hon, gan eu bod yn ei chael hi'n rhy anodd. Pe bawn i'n cyflwyno'r dasg hon eto, byddwn wedi newid ac addasu'r dasg i'r dosbarth, oherwydd mae'n hanfodol cyflwyno'r Maes Dysgu a Phrofiad yma ar lefel y bydd disgyblion yn dysgu a ddeall yn llwyddiannus.

Yn yr ail esiampl, roedd rhaid i'r disgyblion cyflawni tasg darllen a ddeall, eto ar gyfer yr elfen ddaearyddol o'r Dyniaethau. Cwblhawyd y dasg hon gan y disgyblion yn well na'r enghraifft gyntaf, gan fod disgyblion yn deall yn glir nod y dasg. Roedd hefyd o gymorth inni gael trafodaeth dosbarth cyn iddynt gyflawni'r dasg. Erbyn y drydedd enghraifft a ddangosir, mae'n amlwg fy mod wedi gwneud cynnydd trwy weithredu'r egwyddor addysgegol yma. Er mwyn i'r disgyblion cwblhau'r dasg yma, creais daflen wybodaeth a oedd yn addas i anghenion pob disgybl yn y dosbarth yma, gan ei fod yn ddosbarth ADY yn bennaf. Fe wnes i sicrhau bod y ffont yn ddigon mawr, bod geiriau allweddol mewn testun trwm a bod y lluniau o gwmpas yn briodol. Er ei bod yn amlwg rwyf wedi gwneud cynnydd, eto mae yna lawer o le i wella fy ngweithred o'r egwyddor addysgegol yma.

Rhan 4: Argymhellion

Wedi trafod y tair egwyddor benodol megis Asesu ar gyfer Dysgu, Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd ac yn olaf Maes Dysgu a Phrofiad, mae'n amlwg fy mod wedi gwneud cynnydd o'r enghreifftiau a ddangosir. Fodd bynnag, mae lle i wella bob amser a dulliau o ddatblygu gweithred yr egwyddorion addysgegol yma. Yn ôl Fuller (1993), mae athrawon fel asiantau newid yn ddysgwyr gydol gyrfa, a heb hynny ni fyddent yn gallu ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr parhaus. Felly mae'n hanfodol bod athrawon bob amser yn dysgu a chynyddu trwy gydol eu gyrfaedd.

Agwedd yr wyf yn teimlo bod gwir angen i mi weithio arni yw sut rydw i'n defnyddio rhifedd, sef un o'r Cyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd, yn fy ngwersi Addysg Grefyddol yn ogystal â Dyniaethau. Wrth i mi fyfyrio ar yr enghraifft defnyddiais i ddangos fy nefnydd o weithredu rhifedd, mae'n glir bod y dasg gosodais yw dasg talgrynnu. Wrth edrych ar y Camau Cynnydd yn ôl y Fframwaith Rhifedd Cenedlaethol am y Cwricwlwm Newydd 2022 (2019), dim ond o Gam Gynnydd 3 i fyny y sonnir am dasgau talgrynnu a degol. Felly, pe bai disgybl yn y dosbarth hwnnw a oedd ar Gam Gynnydd 2, ni fyddai'r dasg honno wedi bod yn addas gan y byddai'r dasg honno'n rhy anodd. At hynny, ni fyddai'r dasg hon hefyd yn addas i ddisgyblion ar Gam Gynnydd 4 chwaith, gan y byddai'r dasg wedi bod yn rhy hawdd.

Er hyn yn y dyfodol, bydd yn rhaid i mi sicrhau bod y tasgau a osodais ar gyfer disgyblion wedi'u haddasu i alluoedd pob disgybl. Byddaf yn gwneud hyn trwy wahaniaethu. Yn ôl Carolan a Guinn (2007), mae strategaethau gwahaniaethu effeithiol yn cynnwys pedwar prif nodwedd, sef: Cynnig sgaffaldiau wedi'u personoli, defnyddio dulliau hyblyg i gyrraedd pennau diffiniedig, mwynloddio arbenigedd maes pwnc, ac yn olaf creu ystafell ddosbarth gofalgar lle gwelir gwahaniaethau fel asedau. Gan weithredu'r nodweddion yma i wahaniaethu'r effeithiol, bydd yn sicrhau y bydd pob disgybl yn gallu datblygu ei sgiliau rhifedd yn yr ystafell ddosbarth.

I gloi, mae'n amlwg bod y tair egwyddor addysgegol gan Donaldson (2015) yn hollbwysig ar gyfer dyfodol addysg yng Nghymru. Mae Asesu ar Gyfer Dysgu, Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd a Maes Dysgu a Phrofiad yn hanfodol, fel y nododd Donaldson (2015) fod pob un o'r egwyddorion yma efo pwrpas i'r cwricwlwm. Mae pob egwyddor yn bwysig yn unigol, ond maen nhw i gyd yn cydgyssylltu ac yn plethu gyda'i gilydd.

Llyfryddiaeth

Friday, January 3, 2020 1:41 PM

Black et al. (2003) *Assessment for learning*. Lloegr: Open University Press.

Black, P.J. a Wiliam, D. (1998a) *Assessment in Education: Principles, Policy and Practice*. Llundain: Routledge.

Blake, B.E, a Blake, R.W. (2002) *Literacy and Learning: A Reference Handbook*. California: ABC-CLIO, Inc.

British Educational Research Association [BERA]. (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research*. 4^{ydd} Arg. Llundain.

Carolan, J. a Guinn, A. (2007) *Differentiation: Lessons*. Ar gael: https://knilt.arcc.albany.edu/images/8/85/Di_unit_1a.pdf (Darllenwyd: 2 Ionawr 2020).

Cockcroft, Sir Wilfred H. 1982. *Mathematics counts*. Llundain: Her Majesty's Stationery Office.

Denis Hayes (2010) *The seductive charms of a cross-curricular approach*. Ar gael: DOI: 10.1080/03004270903519238 (Darllenwyd: 3 Ionawr 2020).

Department for Education and Skills (2014) *Pedagogy and Practice: Teaching and Learning in Secondary Schools*. Ar gael: http://www.lancsnqfl.ac.uk/projects/behaveattend-new/download/76/5_Starters_and_Plenaries.pdf?s=!B121cf29d70ec8a3d54a33343010cc2 (Darllenwyd: 29 Rhagfyr 2019).

Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Ferrari, A. (2013). *DIGCOMP A Framework for Developing & Understanding Digital Competence in Europe*. Ar gael: <https://publications.jrc.ec.europa.eu/repository/bitstream/JRC83167/lb-na-26035-enn.pdf> (Darllenwyd: 29 Rhagfyr 2019).

Flòrez, M.I. a Sammons, P. (2013) *Assessment for learning: effects and impact*. Ar gael: <https://files.eric.ed.gov/fulltext/ED546817.pdf> (Darllenwyd: 29 Rhagfyr 2019).

Fuller, M.G. (1993) *Why Teachers Must Become Change Agents*. Ar gael: <https://pdfs.semanticscholar.org/f564/79b5eaf7befc64b9af74b8ed870444fb515a.pdf> (Darllenwyd: 3 Ionawr 2020).

Goos, M., Dole, S. a Geiger, V. (2011) *Improving numeracy education in rural schools: a professional development approach*. Ar gael: https://search-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/docview/1813193310?accountid=130472&rfr_id=info%3Axi%2Fsid%3Aprim0 (Darllenwyd: 28 Rhagfyr 2019).

Llywodraeth Cymru (2019) *Fframwaith Cymhwysedd Digidol: Blwyddyn 7 i 9*. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/storage/e0e946e8-2520-4d86->

[b686-941a48269e1b/fcd-blynyddoedd-7-i-9.pdf](https://gov.wales/storage/5286b8da-337d-4a0b-87b8-6facb7121120/national-literacy-and-numeracy-framework-numeracy-curriculum-2022.pdf)(Darllenwyd: 19 Rhagfyr 2019).

Llywodraeth Cymru (2019) *Hawliau Plant yng Nghrymu*. Ar gael:
https://gov.wales/childrens-rights-in-wales?_ga=2.234838622.1756027931.1578165805-1577940795.1576864173
(Darllenwyd: 29 Rhagfyr 2019).

Llywodraeth Cymru (2019) *National Literacy and numeracy curriculum 2022*.
Ar gael:
<https://hwb.gov.wales/storage/5286b8da-337d-4a0b-87b8-6facb7121120/national-literacy-and-numeracy-framework-numeracy-curriculum-2022.pdf>
(Darllenwyd: 3 Ionawr 2020).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Pam y mae angen datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell dosbarth?* Ar gael:
<https://hwb.gov.wales/storage/2b5cc5e1-489b-444c-a8b3-253d2c75912a/pam-y-mae-angen-datblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf> (Darllenwyd: 28 Rhagfyr 2019).

Madison, B. L. a Steen, L.A. (2008) *Evolution of Numeracy and the National Numeracy Network*. Ar gael:
<https://pdfs.semanticscholar.org/cb63/f879e936d6f465368d8e2ca17432636e0256.pdf> (Darllenwyd: 2 Ionawr 2020).

McKee, R. J. (2015) *Encouraging Classroom Discussion*. Ar gael:
<https://www.jsse.org/index.php/jsse/article/view/736/796> (Darllenwyd: 2 Ionawr 2019).

William, D. (2018) *Embedded Formative Assessment*. 2^{ail} Arg. Bloomington: Solution Tree Press.